

A fydd y pandemig yn newid gwyliau dysgu lleol?

Gan fod y pandemig COVID-19 yn effeithio ar addysg ar bob oedran ac ym mhob gwlad, sut fydd hyn yn newid dyfodol gwyliau dysgu lleol a chenedlaethol? Mae'r blog hwn gan Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru yn edrych ar y profiad yng Nghymru ac yn gwahodd partneriaid mewn llefydd eraill i rannu eu profiadau.



Normal newydd

Mae'r chwe mis diwethaf wedi bod yn hynod heriol i ddarparwyr addysg i oedolion yng Nghymru. O adegau cynnar y cyfnod clo i'r newid i dulliau dysgu cyfunol a ffyrdd newydd o ymgysylltu â dysgwyr, mae darparwyr wedi cael eu gorfodi i arloesi, arbrofi a chydweithio mewn ffyrdd newydd.

Yn ystod y cyfnod clo, cynhaliodd Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru ymarferiad byr i ymgysylltu â'r sector i'n helpu i ddeall yn well y gwersi sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr argyfwng. Mae rhai o'r newidiadau rydym wedi'u gweld dros y cyfnod hwn yn rhai i'w defnyddio yn y dyfodol ac ar gyfer yr hyn sy'n datblygu fel y 'normal newydd'. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i integreiddio dulliau dysgu cyfunol ac ar-lein yn llawnach yn y cwricwlwm lleol ac i ymgysylltu â a chefnogi dysgwyr mewn ffyrdd gwahanol. Mae eraill wedi dweud wrthym am fuddion integreiddio a chydweithio mwy effeithiol a sut mae'n allweddol bod hyn yn parhau.

Wrth gwrs, mae gan y model newydd beryglon. Yn enwedig, mae bwlch cynyddol rhwng y dysgwyr hynny sydd â mynediad at dechnoleg — y sgiliau, yr offer, neu'r modd i dalu i fynd ar-lein — a'r rheini sydd heb fynediad ati. Dywedodd dysgwyr wrthym eu bod wedi gweld eisiau'r

cyfleoedd i gymdeithasu a meithrin cyfeillgarwch y mae dysgu wedi cynnig iddynt. Dywedodd un dysgwr wrth ddarparwr mai'r peth y mae wedi gweld ei eisiau fwyaf am ei ddsbarth celf oedd cwmni ei gyd-ddisgyblion a'r tiwtor, nid rhoi'r paent ar y brws.

Mynd gyda'r broses

Yn hytrach na switsh neu golyn, y gwirionedd yw mai proses yw addasu i fywyd wedi'r pandemig COVID-19. Ni fydd unrhyw eiliad benodol pan ddaw ffordd newydd o weithio i'r amlwg ond yn hytrach bydd yn newid dros amser lle bydd y ffocws ar ddiwallu anghenion y dysgwr.

Fel cydlynwyr [Wythnos Addysg Oedolion yng Nghymru](#), rydym wedi dechrau ein taith ein hunain fel rhan o'r broses hon. Yn

draddodiadol, cynhelir Wythnos Addysg Oedolion ym mis Mehefin ac mae'n ffordd i ymgysylltu â ac ysbrydoli oedolion i gymryd y cam hwnnw yn ôl at ddysgu. Yn draddodiadol, mae hefyd wedi bod yn ymgyrch lle mae'r ffocws wedi bod ar ddarparu digwyddiadau corfforol yn y gymuned, fel arfer ar ffurf sesiynau blasu byr neu ffair wybodaeth.

Yn ystod yr wythnos, byddai tua 400 o ddigwyddiadau gwahanol yn cael eu cynnal. Byddai'r rheini fel arfer yn amrywio o ddysgu sgiliau digidol, cyrsiau i helpu i gefnogi iechyd a lles, neu ddigwyddiadau i helpu unigolion i wella eu cyflogadwyedd.

Dull newydd o ymgyrchu

Eleni, oherwydd y pandemig, nid oedd modd cynnal Wythnos Addysg Oedolion ar ei hadeg arferol, felly roedd rhaid i ni newid i ffordd newydd o weithio gyda phartneriaid i ddarparu'r rhaglenni o ddigwyddiadau. Eleni mae'r ymgyrch yn digwydd yn gyfan gwbl ar-lein ac fe'i

Newid dy stori ar-lein

Wythnos Addysg Oedolion
21 - 27 Medi 2020

#newiddystori

<http://bit.ly/LW-EAAL2020-DH>



cynhelir rhwng 21 a 27 Medi. Rydym wedi buddsoddi mewn datblygu ein platfform ar-lein er mwyn cynnig cyrsiau a chynnwys ac, o ddechrau stond ond ychydig o fisoedd yn ôl, bydd yr ymgyrch yn darparu:

- Dros 400 o ddiwyddiadau y gall unigolion gael mynediad atynt naill ai trwy wefan Wythnos Addysg Oedolion neu blatfform Cymru'n Gweithio. Wedi'u categorio dan bum pennawd (leithoedd a Chyfathrebu, Sgiliau Digidol a Thechnoleg, Sgiliau Hanfodol a Chyflogadwyedd, Ymarfer Corff, Iechyd a Lles, a Gwneud a Chreu) cynigir cyrsiau gan amrediad eang o ddarparwyr;
- Yn ystod yr wythnos, cynhelir cyfres o Ddosbarthiadau Meistr gan unigolion a sefydliadau, gan gynnwys llysgennad ein hymgyrch, Sabrina-Cohen Hatton a phartneriaid newydd Rhedeg Cymru, BT a Lark Craft. Cynhelir llawer o'r sesiynau hyn gan sefydliadau ar eu gwefannau neu grwpiau Facebook eu hunain fel rhan o ymgyrch i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd i elwa gan addysg i oedolion.
- Bydd ymgyrch eang ar y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol, a noddir gan ein partneriaid yn [Llywodraeth Cymru](#), i annog pobl i ddod o hyd i gwrs sy'n addas iddynt. Gan fod ein seremoni Gwobrau Ysbrydoli! arbennig hefyd wedi'i chanslo ym mis Mehefin, byddwn yn rhoi sylw i storïau ein henillwyr er mwyn ysbrydoli pobl i gymryd rhan.

Fel rhan o'n rôl fel cydlynnydd cenedlaethol yr [Agenda Ewropeaidd ar Addysg Oedolion](#), byddwn yn cynnal gwaith i werthuso'r profiad o newid i wyl ar-lein ac i'n helpu i ddeall yn well brofiad ein partneriaid, ac yn bwysicaf oll, profiadau ein dysgwyr. Bydd hyn yn helpu i roi mewnwelediad pwysig i ni fel sefydliad, ond y prif nod fydd hysbysu sefydliadau lleol a chefnogi datblygiad a gweithrediad gwyliau dysgu lleol.

Ffyrdd newydd o weithio

Bydd ein prosiect datblygu yn un o'r ffyrdd y gallwn gyfranogi at y model newydd o weithio yn y dyfodol a sut y gallwn gyfuno gweithgareddau yn y gymuned leol ac ar-lein i ysbrydoli pobl i ddechrau dysgu.

Bydd parhau i ddysgu o brofiadau ein gwledydd partner ar draws Ewrop a deall sut maent wedi addasu i her y pandemig ac wedi parhau i gyflawni gweithgareddau gwyliau dysgu yn rhan bwysig o'r prosiect.

Os hoffech rannu eich profiadau â'n tîm prosiect, cysylltwch â

David.hagendyk@learningandwork.org.uk

Ynglŷn â'r awdur



David Hagedyk yw Cyfarwyddwr Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru a Chadeirydd Fforwm Effaith Cymru. Mae wedi bod yn rhan o Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru ers 2017 ac wedi arwain ar brosiectau ymchwil ar Gyfrifon Dysgu Personol, dysgu gydol oes, a chyflogadwyedd.

Mae Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru yn sefydliad ymchwil a datblygu annibynnol sy'n arbenigo mewn addysg oedolion, sgiliau a chynhwysiant.



Mae'r blog hwn yn rhan o [gasgliad o flogiau a sylwadau](#) 2020 y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan ddarparu'r addysg oedolion yn y DU sy'n rhan o raglen yr Agenda Ewropeaidd ar Addysg Oedolion. Os hoffech gymryd rhan, cysylltwch â [Mark Ravenhall](#) neu [Joyce Black](#).

Cofiwch rannu eich sylwadau yn y blwch sylwadau isod neu drydar a rhannu ar [Twitter](#), [Facebook](#), a [LinkedIn](#).